Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Glangwili**

**Ysbyty Cyffredinol Glangwili**
**Heol Dolgwili**
**Caerfyrddin**
**SA31 2AF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/12/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Meithrinfa Ddydd Glangwili

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Willow Daycare Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 53 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Rhagfyr 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn hyderus, yn hapus ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Mae ganddynt ymdeimlad hyfryd o berthyn ac maent yn meithrin cydberthnasau ac yn gwneud ffrindiau mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn teimlo'n gartrefol, yn hapus ac yn gyfforddus yn y lleoliad. Mae'r plant yn dangos brwdfrydedd a chyffro wrth chwarae. Maent yn cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau wedi'u cynllunio neu'n dilyn eu diddordebau eu hunain.

Mae'r staff yn hybu llesiant y plant yn bwrpasol. Maent yn deall bron pob un o'r polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Mae'r staff yn rhoi strategaethau ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson ac yn dangos ymddygiad da. Maent yn dilyn cynlluniau gweithgareddau syml, gan gwblhau arsylwadau ac olrhain cynnydd y plant.

Mae mesurau effeithiol ar waith gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant drwy gynnig amrywiaeth dda o adnoddau, teganau a chyfarpar sy'n briodol o ran oedran a cham datblygiad.

Mae polisïau a gweithdrefnau effeithlon a chlir ar waith gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad. Maent yn monitro ac yn adolygu eu lleoliad yn rheolaidd ac yn rhoi gwelliannau ar waith yn dilyn eu hadolygiadau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sicrhau yr ymdriniwyd â'r meysydd i'w gwella a'r argymhellion a wnaed yn ystod yr ymweliad arolygu diwethaf. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant ac yn cynnal gweithgareddau datblygiad proffesiynol ystyrlon. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol iawn â'r rhieni.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn gwneud dewisiadau pwrpasol wrth chwarae. Gwelsom un plentyn yn dewis llyfr yn annibynnol ac yn ei roi i aelod o'r staff ei ddarllen. Mae'r plant yn ystafell y babanod yn archwilio eu hamgylchedd yn rhydd ac yn hyderus, gan ddefnyddio hambyrddau gweithgareddau yn ogystal â chegin chwarae rôl. Aeth y plant ati i ddewis yr hyn yr hoffent ei wneud neu i ymuno â gweithgareddau dan arweiniad oedolyn yn effeithiol, er enghraifft gwrando ar stori neu gymryd rhan mewn gweithgaredd parasiwt. Gwelsom y plant hŷn yn chwarae'n llawn cyffro yn yr ardal awyr agored, gan ddewis eitemau sy'n suddo neu'n arnofio yn yr hambwrdd dŵr. Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus; maent yn gwybod y bydd y staff yn ymateb iddynt. Yn ystod amser cinio, maent yn nodi'r hyn y maent am ei fwyta, *'I don't want the soup',* ac mae hyn yn cael ei barchu.

Mae'r plant yn chwarae ac yn rhyngweithio â'i gilydd mewn ffyrdd sy'n briodol ar gyfer eu hoedran a'u camau datblygu. Mae'r plant iau yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn fodlon. Mae'r plant wedi gwneud ffrindiau cadarn ac maent yn cyd-dynnu'n dda. Mae'r plant yn yr adran cyn-ysgol yn chwarae'n effeithiol gyda'i gilydd ac yn garedig wrth ei gilydd. Gwelsom blant yn chwarae'n hapus fel pâr gyda'r deinosoriaid bach, gan ruo a gwichio gyda'i gilydd. Mae'r plant yn fodlon eu byd drwy gydol y sesiwn. Gellir eu clywed yn sgwrsio yn eu grwpiau, o amgylch y byrddau ac wrth chwarae yn y gornel gartref. Mae awyrgylch cyfeillgar a hamddenol yn y feithrinfa. Caiff plant sy'n cynhyrfu rywfaint ar adegau eu tawelu'n gyflym gan y staff mewn ffordd gynnes a chofleidiol. Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cryf â'r staff sy'n gofalu amdanynt. Gwelsom y plant yn eistedd ar liniau'r staff ac yn estyn eu breichiau tuag atynt i gael maldod.

Mae'r plant yn dilyn trefn arferol y lleoliad. Maent yn weithgar wrth chwarae ac yn dangos brwdfrydedd a mwynhad wrth ddysgu a chymryd rhan mewn amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae dan do. Gwelsom y plant yn dathlu eu cyflawniadau eu hunain wrth iddynt lwyddo i gydbwyso ar y llwybr roeddent wedi'i greu gan ddefnyddio boncyffion o wahanol feintiau a dweud, *"Yes I did it."* Mae'r plant yn cychwyn eu chwarae eu hunain gan fod yr adnoddau yn cael eu cadw o fewn cyrraedd iddynt ar lefel addas. Er enghraifft, aeth grŵp o blant ifanc ati i archwilio'r hambwrdd gweithgareddau synhwyraidd, gan ymgolli'n llwyr wrth ymchwilio i'r eitemau a oedd ar gael iddynt. Roedd y rhain yn cynnwys addurniadau Nadolig ac un ar wahân ar gyfer y reis a'r hadau. Mae'r plant yn hapus iawn ac yn fodlon eu byd wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau a gynlluniwyd. Er enghraifft, cymerodd y plant hŷn ran yn llawn brwdfrydedd mewn gweithgaredd cerddoriaeth, gan ddewis eu hofferynnau eu hunain yn ogystal ag ymuno â'r canu. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu hannibyniaeth yn unol â'u hoedran a'u cam datblygiad. Er enghraifft, cyfleoedd i fwydo eu hunain yn annibynnol, mynd i'r toiled a golchi eu dwylo, yn ogystal â gwisgo eu cotiau a'u hesgidiau glaw i chwarae yn yr awyr agored.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae bron pob aelod o'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y plant yn cadw'n ddiogel ac yn iach. Mae polisïau a gweithdrefnau diogelu da ar waith. Mae pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gwybod beth i'w wneud pe bai ganddynt unrhyw bryderon am y plant neu'r oedolion yn y feithrinfa. Mae hyfforddiant amddiffyn plant a chymorth cyntaf pob aelod o'r staff yn gyfredol. Mae'r staff yn cynnig amrywiaeth o fyrbrydau a phrydau iach i'r plant. Mae system ar waith i reoli alergeddau a dewisiadau deietegol. Mae'r staff yn sicrhau bod ffedogau a menig yn cael eu gwisgo pan fyddant yn gweini bwyd i'r plant. Gwnaethom drafod y dull a oedd yn cael ei ddefnyddio i weini bwyd poeth i'r plant hŷn ac ymdriniwyd â'r mater ar unwaith. Mae'r staff yn sicrhau bod dŵr yfed ar gael i'r plant drwy gydol y dydd. Yn ystod yr ymweliad, gwelsom aelodau o'r staff yn paratoi poteli llaeth yn ystafell y babanod, a hynny gan ddilyn dulliau priodol.

Mae bron pob aelod o'r staff yn rhoi arferion hylendid ar waith yn gyson yn y lleoliad, ac yn ymateb i anghenion sylfaenol y plant, er enghraifft sychu trwynau'r plant. Mae'r staff yn sicrhau eu bod yn ymgynghori â'r plant cyn iddynt helpu i sychu eu trwynau, *'Fi mynd i sychu trwyn ti oce?'* . Mae'r staff yn defnyddio gel dwylo gwrthfacterol ar ôl helpu'r plant i sychu eu trwynau, cyn paratoi poteli llaeth, a chyn helpu'r plant adeg prydau bwyd. Fodd bynnag, gwelsom y staff yn defnyddio'r un cadach i sychu dwylo'r plant iau. Ymdriniwyd â hyn ar unwaith yn dilyn yr ymweliad, a chawsom wybod gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad eu bod wedi ymateb drwy brynu cadachau ychwanegol. Caiff y gweithdrefnau newid cewynnau eu cynnal yn briodol, ac mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn gyfforddus drwy gydol y broses a bod eu hurddas yn cael ei barchu. Cafodd y mat newid cewynnau ei newid ar unwaith yn dilyn argymhelliad a wnaed yn ystod yr ymweliad arolygu. Mae'r staff yn cynnal gwiriadau rheolaidd o'r plant pan fyddant yn cysgu, a chedwir cofnod o'r gwiriadau hyn. Yn ogystal, defnyddir larwm i'w hatgoffa i wneud hynny. Gwnaethom godi ein pryderon mewn perthynas â'r clustogau a oedd wedi'u gosod yn y cotiau a diogelwch y clustogau hynny. Roedd y polisi cysgu hefyd yn nodi na ddylid gosod eitemau yn y cot gyda'r plant. Cafodd y clustogau eu symud ar unwaith.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol, gan drin y plant â charedigrwydd a gofal. Mae rhai o'r staff yn ymrwymedig i hyrwyddo'r Gymraeg ac yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd â'r plant. Mae'r staff yn sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio gweithgareddau i'r plant ac maent hefyd yn cwblhau arsylwadau ac asesiadau priodol. Mae'r staff yn canmol y plant am eu hymdrechion a'u cyflawniadau er mwyn hybu eu hyder a'u hunan-barch, *"Good girl" ac "you are doing such a good job."* Mae'r staff yn rheoli ymddygiad y plant yn dda drwy eu hannog i rannu ac i fod yn garedig tuag at eu ffrindiau. Mae'r staff hefyd yn annog moesau da. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol ac agos â nhw. Maent yn deall

dewisiadau'r plant ac yn sensitif i anghenion pob plentyn. Mae'r staff yn casglu gwybodaeth fanwl am y plant cyn iddynt ddechrau, ac maent yn cyfathrebu'n dda â'r rhieni.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn ddiogel ac mewn cyflwr da, dan do ac yn yr awyr agored. Mae arferion glanhau trylwyr ar waith er mwyn cynnal arferion hylendid a dulliau rheoli heintiau da a chedwir cofnod i ddangos hyn. Mae bron pob aelod o'r staff yn nodi'r risgiau i ddiogelwch y plant ac yn eu lleihau. Mae gwiriadau eraill o'r amgylchedd a diogelwch yr adeilad wedi'u cwblhau ac mae tystysgrifau ar gael. Mae llyfr ymwelwyr ar waith yn ardal prif fynedfa'r lleoliad, sy'n sicrhau diogelwch pawb sydd ar y safle. Maent yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd ac mae amrywiaeth o asesiadau risg da ar waith.

Mae'r amgylchedd yn lân, wedi'i gynllunio'n bwrpasol, ac yn groesawgar. Mae ystafelloedd ar gyfer grwpiau oedran penodol sy'n galluogi'r plant i ymlacio ac i chwarae'n ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn trefnu'r amgylchedd yn dda. Mae'n canolbwyntio ar y plant ac yn darparu amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae sy'n addas i oedran y plant. Mae'r systemau storio lefel isel yn galluogi'r plant i gael gafael ar deganau ac adnoddau yn annibynnol. Mae gosodiadau a dodrefn priodol o uchder addas i blant, fel y toiledau, sinciau, byrddau a chadeiriau. Mae digon o le i blant o bob oedran chwarae a dysgu. Mae cynllun yr ystafelloedd yn golygu bod y plant yn gallu symud o amgylch yn rhydd ac yn ddiogel. Mae toiledau'r plant yn hygyrch o ystafell chwarae'r plant hŷn, sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth o ran rheoli eu hanghenion personol eu hunain.

Mae'r amgylchedd yn ddeniadol i'r llygaid, gan fod byrddau arddangos yn dangos enghreifftiau o waith celf y mae'r plant wedi'i greu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn dathlu gwahanol ddiwylliannau ac yn hyrwyddo amrywiaeth. Mae ardal awyr agored benodedig ar gael i bob ystafell, sy'n cynnig cyfleoedd i'r plant archwilio. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn defnyddio'r ardaloedd hyn yn rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi buddsoddi'n helaeth yn yr ardaloedd awyr agored yn ddiweddar ac wedi eu datblygu ymhellach. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnig cyfleoedd diddorol i'r plant. Er enghraifft, cegin fwd, chwarae synhwyraidd, chwarae rôl a lle i'r plant feithrin eu sgiliau echddygol bras.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth gadarn. Maent yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol ac effeithiol sy'n adlewyrchu'r lleoliad yn gywir ac sy'n cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau, ac maent yn deall eu cyfrifoldebau rheoliadol. Maent yn cyfathrebu'n dda ag Arolygiaeth Gofal Cymru ac yn sicrhau eu bod yn rhoi gwybod am bob digwyddiad hysbysadwy mewn modd amserol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw'r holl gofnodion gofynnol am y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio amserol a chadarn yn gyson er mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt systemau da ar waith i ddiweddaru gwiriadau addasrwydd fel sy'n ofynnol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn meddu ar y cymwysterau priodol ar gyfer y rôl. Mae gweithdrefn sefydlu dda ar waith i aelodau newydd o staff. Mae'r broses rheoli perfformiad ar waith, a chynhelir arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio rheolaidd. Dywedodd pob aelod o'r staff eu bod yn mwynhau eu gwaith, bod hyfforddiant rheolaidd ar gael iddynt a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, *"I love it here and feel very well supported."* Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnod o bresenoldeb y plant a'r staff, ac yn defnyddio'r staff gofal mewn ffordd drefnus i fodloni'r cymarebau staffio.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal hunanwerthusiadau penodol. Maent yn gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr, staff a phartneriaid eraill â diddordeb. Maent yn llunio adroddiad buddiol ar ansawdd y gofal sy'n rhoi crynodeb o'r ymatebion, y gwelliannau a wnaed a'r cynlluniau ar gyfer gwella. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau da wrth ymdrin ag unrhyw gwynion/pryderon. Er enghraifft, maent yn cadw cofnod llawn ac yn rhoi gwelliannau ar waith.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod systemau ar waith ar gyfer rheoli a chofnodi damweiniau a digwyddiadau, yn ogystal ag unrhyw feddyginiaeth a gaiff ei rhoi. Yn ystod yr ymweliad, gwelsom nad oedd pob cofnod damweiniau wedi'i lofnodi gan y rhieni/gofalwyr. Fodd bynnag, cafodd hyn ei unioni ar ôl yr ymweliad, ac mae'r unigolyn sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y rhieni/gofalwyr yn cael gwybod am bob damwain drwy'r ap a ddefnyddir i gyfathrebu â'r rhieni. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni bob dydd drwy'r ap. Maent yn gweithio gydag asiantaethau allanol pan fydd angen cymorth neu gyngor arnynt. Dywedodd rhieni'r plant sy'n defnyddio'r lleoliad hwn eu bod yn fodlon iawn ar y lleoliad, *"They are fabulous. They're really flexible and accommodating. I find the app really useful and my child settled quickly."* Dywedodd y rhieni wrthym hefyd eu bod yn teimlo bod eu plant wedi gwneud cynnydd da a bod y lleoliad yn cael ei redeg yn dda.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 27 | Nid yw'r staff bob amser yn meddu ar gymwysterau na phrofiad addas ar gyfer ystod oedran y plant y maent yn gofalu amdanynt a bydd hyn yn cael effaith negyddol ar ansawdd y gofal a ddarperir weithiau. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod y staff yn dilyn yr holl bolisïau a gweithdrefnau |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 08/03/2024